Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau cymuned a thref

## Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (Mawrth 2025)

Ym mis Mawrth 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei adroddiad ar ei ymchwiliad ynghylch rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned.  Mae'r adroddiad yn cynnwys 11 o argymhellion ac 1 casgliad.  Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny a'r casgliad.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad....3**

**2. Ymateb i'r 11 o argymhellion....4**

Argymhelliad 1....4

Argymhelliad 2....4

Argymhelliad 3....5

Argymhelliad 4....6

Argymhelliad 5....6

Argymhelliad 6....6

Argymhelliad 7....7

Argymhelliad 8....8

Argymhelliad 9....8

Argymhelliad 10....8

Argymhelliad 11....9

Casgliad....10

# 1. Cyflwyniad

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am eu hadroddiad ar rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau cymuned a thref. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Yn ogystal, byddaf yn parhau i fyfyrio ar yr Adroddiad hwn, ochr yn ochr â'm hystyriaeth o'r **Adroddiad Iechyd Democrataidd** i gynghorau cymuned a thref a'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar reolaeth ariannol a llywodraethiant y sector gan Archwilio Cymru.

# 2. Ymateb i'r 11 o argymhellion

## Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyd-gynhyrchu system archwilio bwrpasol newydd ar gyfer cynghorau tref a chymuned yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod amrywiaeth ym maint cynghorau yn y sector a bod dull archwilio 'un ateb sy'n addas i bawb' yn gallu bod yn heriol i gynghorau llai gydag incwm is a staffio cyfyngedig i gefnogi'r gofynion archwilio presennol. Mae'r trefniadau presennol, a gyflwynodd yr archwiliad cylchol tair blynedd, yn galluogi Archwilio Cymru i roi sylw i faint gwahanol y cynghorau o ran sut y maent yn cymhwyso eu gweithdrefnau.

Gan fod cynghorau cymuned a thref yn awdurdodau cyhoeddus, byddem yn disgwyl i unrhyw system ddiwygiedig ddarparu lefel effeithiol a chymesur o dryloywder ac atebolrwydd. Byddwn yn gweithio gydag Archwilio Cymru a'r sector i ystyried sut y gallai system ddiwygiedig edrych. Bydd y broses hon yn pwyso a mesur adroddiad diweddar Archwilio Cymru ar reolaeth ariannol a llywodraethiant cynghorau cymuned a thref ac yn ystyried pa wybodaeth y byddai angen i gynghorau ei pharatoi i roi sicrwydd i'w cymunedau o lywodraethiant priodol.

Yn dibynnu ar y cynigion, efallai y bydd y system archwilio newydd yn gofyn am newidiadau i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn yr adnoddau a'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r opsiwn o ddefnyddio canllawiau statudol drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fel cyfrwng ar gyfer cyflwyno hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr tref a chymuned ar y cod ymddygiad, ac ymgynghori'n ffurfiol â'r sector ar y cynnig.

Ymateb: Derbyn

Cafodd y syniad o hyfforddiant gorfodol ei brofi yn flaenorol yn dilyn adolygiad annibynnol 2018.  Ar y pryd, roedd diffyg cymorth sylweddol gan y sector.  Roedd

pryderon ymarferol hefyd ynghylch sut y gellid gweithredu a gorfodi hyfforddiant gorfodol.

Gan nad yw materion y cod ymddygiad wedi gwella ers Adolygiad Annibynnol 2018, rydym yn cytuno bod gwerth mewn gweithredu pellach. Tynnodd yr adroddiad ar Iechyd Democrataidd sylw hefyd at bryderon yn y sector yn deillio o ddewis cynghorwyr i beidio â mynychu hyfforddiant ar y cod ymddygiad. Mae'r adroddiad wedi nodi hefyd fod materion y cod ymddygiad yn effeithio ar reoleiddwyr y fframwaith moesegol, gyda swyddogion monitro yn treulio amser sylweddol yn mynd i'r afael â materion gan gynghorau cymuned.

Rydym yn falch o weithio gyda'r sector i adolygu'r canllawiau statudol i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned roi sylw dyladwy i hyfforddiant ar y cod ymddygiad wrth ddatblygu eu cynlluniau hyfforddi. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut y gellid gweithredu a gorfodi hyfforddiant gorfodol yn ymarferol. Byddai angen i Lywodraeth Cymru fod yn hyderus y byddai gorfodi hyfforddiant yn ymateb cymesur o ran buddion ac unrhyw gostau gorfodi.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnig bwrsariaeth i Un Llais Cymru ar gyfer darparu ei hyfforddiant ar y cod ymddygiad, a'i gynnal ar y lefelau presennol.

Ymateb: Derbyn

Mae Un Llais Cymru wedi cael dyfarniad grant Gwella a Digidol heb ei neilltuo o £400,000 ar gyfer 2025-26 i'w alluogi i arloesi a bod yn greadigol ynghylch y ffordd orau o fanteisio i'r eithaf ar y dyfarniad i ddarparu mwy o gymorth i'r sector. Mae'r penderfyniad i bennu lefel y cyllid ar gyfer y cynllun bwrsari hyfforddi – gan gynnwys y cod ymddygiad – bellach yn nwylo Un Llais Cymru.

Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu bwrsari uwch i Un Llais Cymru ar gyfer darparu hyfforddiant, gan ganolbwyntio ar reolaeth ariannol a llywodraethiant. Ers 2023, mae hyn wedi cynnwys ffocws penodol ar hyfforddiant ar y cod ymddygiad. Mae bwrsarïau wedi cael eu tanhawlio'n rheolaidd gan y sector. Er bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddarparu bwrsari hael, dim ond yn amodol ar gytundeb yn y gyllideb flynyddol y gall barhau i wneud hynny. Yn bennaf, mater i gynghorau cymuned yw sicrhau'r adnoddau er mwyn bodloni'u gofynion hyfforddi. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo hyfforddiant penodol drwy fwrsarïau.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio opsiynau i hwyluso mwy o ddefnydd o ddatrysiadau lleol i anghydfodau.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi nodi bod yr adroddiad ar Iechyd Democrataidd wedi awgrymu adolygiad o'r protocol Datrys Lleol i nodi lle mae'n gweithio a lle nad yw'n gweithio, ac i argymell ffyrdd ymarferol i'w wella. Mae'r adroddiad yn cynnig y dylai adolygiad, dan arweiniad cadeiryddion pwyllgorau safonau a Rhwydwaith y Pwyllgorau Safonau, gan weithio gydag Un Llais Cymru, edrych ar ba mor dda y mae'r fframwaith moesegol a'r broses cod ymddygiad wedi cael eu rhoi ar waith. Byddwn yn ymateb i'r Adroddiad ar Iechyd Democrataidd maes o law, ond rwyf yn bwriadu gofyn i gadeiryddion pwyllgorau safonau ddechrau'r darn hwn o waith cyn bo hir oherwydd ei botensial i helpu i wella diwylliant ac enw da'r sector.

Goblygiadau Ariannol- £5,000

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol i archwilio mecanweithiau i alluogi'r sector cynghorau tref a chymuned i gael cymorth gan swyddogion monitro a gwasanaethau AD awdurdodau lleol.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cytuno â'r argymhelliad. Yn ymarferol, cyfrifoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Un Llais Cymru yw hwyluso hyn drwy eu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Byddwn yn gweithio gyda nhw gan godi'r mater ag arweinydd CLlLC ac Un Llais Cymru yn flaenoriaeth strategol sydd o ddiddordeb a budd i'r ddwy ochr.

Goblygiadau ariannol - dim i Lywodraeth Cymru

## Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chorff perthnasol, megis Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, i gynnal adolygiad o dystiolaeth i lywio polisïau maint er mwyn sicrhau dull cenedlaethol gyson o gynnal adolygiadau cymunedol dan arweiniad prif gynghorau.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi nodi bod yr Adroddiad ar Iechyd Democrataidd wedi cynnig hefyd y dylid cynnal adolygiad o dystiolaeth i lywio polisïau o ran maint. Y nod yw

cyfrannu at ddull gweithredu sy'n gyson yn genedlaethol ar gyfer adolygiadau cymunedol sy'n cael eu harwain gan y prif gynghorau. Bernir bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn gorff sydd mewn sefyllfa dda i gynnal adolygiad o'r fath.

Rydym wedi gofyn i'r Comisiwn ddechrau gweithio cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i hybu cysondeb o ran polisïau ar faint cynghorau cymuned.

Goblygiadau Ariannol - £20,000

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r sector cynghorau tref a chymuned i archwilio mwy o gyfleoedd ar gyfer clystyru ac i annog rhannu arferion da.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn credu bod cyfleoedd gwirioneddol mewn clystyru cynghorau tref a chymuned na fanteisiwyd i'r eithaf arnynt eto. Rydym yn falch o weithio gyda'r sector drwy Un Llais Cymru i ymchwilio i hyn.

Mae Un Llais Cymru wedi cael dyfarniad grant Gwella a Digidol heb ei neilltuo o £400,000 ar gyfer 2025-26. Mae'r grant wedi'i gynllunio i roi'r hyblygrwydd i Un Llais Cymru fod yn greadigol ac arloesol yn y ffordd y mae'n cefnogi'r sector. Gall hyn gynnwys hyrwyddo clystyru a rhannu arferion da.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i gynllun peilot blaenorol o drefniadau ar y cyd rhwng cynghorau cymuned a thref rhwng Medi 2017 a Mawrth 2020. Dros y tair blynedd, cefnogwyd 12 o brosiectau, gan gynnwys 74 o gynghorau, gyda'r nod o feithrin cydweithredu, gwella gwasanaethau lleol, a gwella cyfranogiad cymunedol.

Roedd y canlyniadau yn gymysg. Roedd cynghorau bach yn teimlo nad oedd ganddynt fawr ddim i'w gynnig o ran clystyru, ac roedd cynghorau mwy o faint yn betrus am y costau. Roedd pryderon hefyd y byddai clystyru yn golygu y byddai cynghorau mwy yn cymryd drosodd rhai llai. Nid oedd pryderon ariannol wedi'u lleddfu'n llawn gan ddarparu gwasanaethau ar y cyd, ac nid oedd rhai cymunedau yn gydnaws ar gyfer cydweithio. Cafodd y gwaith dilynol ei atal oherwydd y pandemig. Byddai angen i unrhyw waith dilynol gymryd i ystyriaeth y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect hwn.

Goblygiadau Ariannol – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol

## Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r ddwy haen o lywodraeth leol i sicrhau y gellir cynnal adolygiad o'r siarter enghreifftiol rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn falch o gefnogi dull a arweinir gan y sector o adolygu'r siarter enghreifftiol rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned.

Calondid inni yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd yn ddiweddar rhwng CLlLC ac Un Llais Cymru, gyda'r diben o gynyddu cydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Rydym wedi nodi hefyd fod Prif Weithredwr Un Llais Cymru wedi nodi yn ystod ei sesiwn bresenoldeb ar 27 Tachwedd, fod adnewyddu'r siarter yn cael ei ddatblygu, gan weithio gyda Rhondda Cynon Taf. Y bwriad wedyn yw i Un Llais Cymru, gan weithio gyda CLlLC, i raeadru'r gwaith hwn ar draws ardaloedd yr 21 awdurdod unedol sy'n weddill.

Rydym yn credu mai'r dull a arweinir gan y sector i adnewyddu'r siarteri i'w defnyddio ar draws y ddwy haen o lywodraeth yw'r dull cywir. Byddwn yn defnyddio fy nghyfarfodydd dwyochrog ag Un Llais Cymru a CLlLC i adolygu cynnydd a darparu cymorth.

Goblygiadau Ariannol – Dim

## Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r cynllun gweithredu iechyd digidol cynghorau cymuned a thref a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023.

Ymateb: Derbyn

Bydd y prosiect i gefnogi rhoi'r Cynllun Gweithredu Iechyd Digidol ar waith yn cwblhau ei ail flwyddyn o weithgareddau cyn bo hir. Mae Un Llais Cymru wedi cael cyllid o hyd at £300,000 i gefnogi rhoi'r cynllun gweithredu ar waith. Gan dynnu ar eu hadroddiadau ar gynnydd, rydym yn anelu at gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ar weithredu a blaenoriaethau'r dyfodol yn ddiweddarach eleni.

Goblygiadau Ariannol Dim

## Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLlLC ac Un Llais Cymru i annog awdurdodau lleol i:

- ddarparu cymorth TG i gynghorau tref a chymuned drwy gytundebau lefel gwasanaeth, a
- rhannu cyfleusterau i'w defnyddio gan gynghorau tref a chymuned i gynnal cyfarfodydd hybrid.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn falch o weithio gyda phartneriaid y sector i hybu rhannu gwasanaethau ar draws cynghorau cymuned a thref a chyda phrif gynghorau.

Mae gwaith ar y gweill drwy'r **Cynllun Gweithredu Iechyd Digidol** sy'n cynnwys camau gweithredu i ymchwilio i gyfleoedd i gynghorau cymuned rannu cymorth TG gyda'r prif gynghorau, yn ogystal ag ymchwilio i opsiynau i gynghorau weithio mewn adeiladau cymunedol eraill lle y mae seilwaith priodol eisoes ar gael. Roedd y cynllun hwnnw'n gosod y gwaith hwn yn is i lawr y blaenoriaethau ar gyfer blynyddoedd un a dwy ond yn cydnabod y manteision posibl mewn rhannu adnoddau a gwasanaethau. Rhagwelir y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Un Llais Cymru a CLlLC yn darparu sylfaen ar gyfer trafod rhannu gwasanaethau.

Bydd y cyllid a ddarperir i Un Llais Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26 yn gyllid heb ei neilltuo, gan roi'r rhyddid i Un Llais Cymru benderfynu ar y ffordd orau o'i ddefnyddio i gefnogi'r sector, gan gynnwys parodrwydd digidol.

Goblygiadau Ariannol – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol fel mai dim ond unwaith yn ystod tymor etholiadol y mae'n ofynnol i gynghorau cymuned sy'n gymwys i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol gadarnhau eu cymhwystra.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn falch o barhau i adolygu'r mater hwn fel rhan o raglen dreigl Llywodraeth Cymru i adolygu effaith Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ni fydd modd cyflawni unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth yn nhymor presennol y Senedd. Y rheswm dros hyn yw'r angen i ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid i asesu effaith bosibl llacio'r gofyniad i ailddatgan yn flynyddol, cyn unrhyw benderfyniad i ddiwygio deddfwriaeth yn un o dymhorau'r Senedd yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – Gellir gwneud gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol

## Casgliad

Hoffem i Lywodraeth Cymru wneud mwy, ar y cyd â'r sector, i godi ymwybyddiaeth o'r bwrsari ac i ac annog mwy o glercod i astudio ar ei gyfer. Gallai'r posibilrwydd o roi cydnabyddiaeth ariannol i glercod am yr amser hyfforddi ychwanegol fod yn opsiwn i'w archwilio.

Ymateb:

Er bod y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA) yn ofyniad i'r cynghorau hynny sy'n dymuno arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol , rydym yn cytuno bod cyfleoedd hyfforddi eraill a fyddai'n galluogi clercod i gyflawni eu rolau yn broffesiynol, heb yr angen i gwblhau'r cymhwyster CiLCA.

Ar gyfer dyfarniad bwrsari 2025-26 i Gymdeithas y Clercod Cynghorau Lleol (SLCC), rydym yn darparu grant heb ei neilltuo. Bydd hyn yn galluogi'r SLCC i hyrwyddo a darparu ystod ehangach o fwrsarïau sydd ar gael i glercod i ymgymryd ag ystod ehangach o hyfforddiant, y tu hwnt i'r cymhwyster CiLCA. Bydd hyn yn caniatáu i glercod ddewis yr hyfforddiant sy'n briodol i'w hanghenion.

Byddwn yn gweithio gyda'r sector, ac yn enwedig y SLCC, i hyrwyddo manteision CiLCA i gynghorau cymuned a thref a rhannu enghreifftiau lle y mae cynghorau sy'n elwa o gael clercod sydd â'r cymhwyster. Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r cymhwyster pan fydd cyfleoedd yn codi inni allu gwneud hynny.

Cyflogeion cynghorau cymuned a thref yw clercod a chan hynny, mater i'r cynghorau benderfynu arno yw cydnabyddiaeth ariannol clercod. Er hynny, drwy ddarparu mwy o hyblygrwydd yn y grant i'r SLCC, bydd gan gynghorau fwy o hyblygrwydd wrth fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi eu clercod yn fwy effeithiol.

Goblygiadau Ariannol – Gellir gwneud gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.